# Ardaloedd heb lawer o gofnodion: Monad y Mis a'r Gronfa Ddata ledled Cymru, Aderyn

Y mis yma, yn lle darparu sgwariau Monad y Mis newydd, roeddem yn meddwl y byddem yn eich atgoffa chi o'r monadau rydym wedi tynnu sylw atynt hyd yn hyn eleni. Maen nhw i'w gweld ar y map yma ac mae posib eu canfod ledled gogledd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain, a'n holl fonadau eraill sydd wedi'u cyhoeddi, ar gael yn adran llyfrgell y wefan yn www.cofnod.org.uk/Library.

Os yw'r lleoliadau hyn yn rhy bell i ffwrdd ac os hoffech weld pa fywyd gwyllt sydd wedi'i gofnodi ger eich cartref chi, neu yn wir yn unrhyw le arall yng Nghymru, edrychwch ar gronfa ddata **Aderyn** aderyn.lercwales.org.uk. Mae Aderyn yn cynnwys yr holl gofnodion bywyd gwyllt sydd wedi'u casglu gan bob un o'r pedair Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru. Gall y cyhoedd ei ddefnyddio heb fod angen mewngofnodi na chofrestru gyda'r wefan.

Mae dau fath o chwiliad yn bosibl. Bydd y chwiliad 'Beth sydd yn fy ardal i?' yn rhoi rhestr i chi o ba rywogaethau sydd wedi'u cofnodi mewn sgwâr grid un cilometr o'ch dewis chi, ynghyd â nifer y cofnodion a'r dyddiad pan gawsant eu cofnodi gyntaf a ddiwethaf. Mae hon yn ffordd wych o ddarganfod pa fylchau cofnodi sydd yn eich ardal chi.

Mae'r chwiliad 'Mapiau Dosbarthiad' yn galluogi i chi ddewis rhywogaeth neu grŵp tacson cyfan ac yn arddangos map dosbarthiad 10km ar gyfer y rhywogaeth honno neu'r grŵp hwnnw. Wedyn gallwch ddewis sgwâr 10km a gweld map dosbarthiad 1km. Gallech ddefnyddio hwn i archwilio pa rywogaethau cyffredin eang sydd heb gofnodion o'u dosbarthiad, neu lle mae bylchau cofnodi ar gyfer grŵp tacson penodol y mae gennych ddiddordeb ynddo.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau archwilio'r data gydag Aderyn, ond cofiwch na ddylid defnyddio'r mapiau a'r data at ddibenion masnachol a bod cofnodion o rywogaethau sensitif yn cael eu heithrio o chwiliadau 1km. Os oes gennych chi unrhyw adborth, cysylltwch ar contactus@cofnod.org.uk




